

Gweithredu Gwyrdd

Cylchgrawn Cyfeillion y Ddaear Cymru

2011



**Cyfeillion
y Ddaear
Cymru**
**Friends of
the Earth
Cymru**

MEGIS DECHRAU

Dal ati ar ôl 40 mlynedd o weithredu gwyrdd



DONIOLWCH
dros fater difrifol

Ynni Cymunedol | Yn y Cynulliad | Grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear

Amser da

Simon Williams, Golygydd



Mae'n amser da i gymryd saib ac ystyried pa mor bell y daethom hyd yn hyn. Mae Cyfeillion y Ddaear wedi bod yn ymgyrchu ym Mhrydain ers 40 mlynedd, ac mae'n benblwydd 40eg Cyfeillion y Ddaear Ewrop eleni hefyd.

Dyw Cyfeillion y Ddaear Cymru ddim mor hen a hynny, gan gychwyn ymgyrchu yng Nghymru ym 1984. Ond mae ein cyfarwyddwr uchel ei barch, Gordon James, wedi bod wrthi, wel, erioed, ac yn cymryd ymddeoliad haeddiannol iawn eleni. Er, o nabod Gordon, nid dyma diwedd ar yr ymgyrchu iddo fe.

Bu nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus iawn yma yng Nghymru, rhai ohonynt a goblygiadau ym mhell tu hwnt i ffiniau'n gwlad gwyrdd ni – gallwch weld crynodeb o'r rhain ar dudalen 8. Wrth gwrs, ni fyddent yn bosib heb ein cefnogwyr, aelodau'n grwpiau lleol a phawb arall sydd wedi ymuno a ni ar y daith. Felly mae'n adeg da i ddweud diolch hefyd.

Ac os mai dyma'r tro cyntaf i chi

ystyried y peth, mae nawr yn amser da i gymryd rhan. Lluniau taith gofod Apollo ym 1969 o Ddaear hardd a bregus a ysgogodd cenhedlaeth o bobl i sylweddoli pwysigrwydd gwarchod ein hamgylchedd. A nawr, wrth wynebu bygythiadau enfawr newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, rydyn ni hyd yn oed yn fwy ymwybodol o ba mor fregus mae'r systemau sy'n cynnal ein bywydau ar y ddaear.

Mae ymgyrchu dros y blaned a dyfodol teg i bawb sy'n byw arni wedi newid dros 40 mlynedd. Ar dudalen 8 mae Gordon yn dweud ei fod yn anoddach nawr, gyda'r problemau sy'n ein gwynebu yn gallu teimlo'n llethol, a dewisiadau anodd i wneud a all newid ein ffordd o fyw.

Ond mae lluniau tudalen 6 yn rhoi'r argraff nad yw ymgyrchu'n waith caled mewn gwirionedd. Mae cael amser da yn teimlo hyd yn oed yn well pan mae'n cyfrannu at rhywbeth pwysig, a gall actio'r ffwl fod yn ffordd pwerus o drosglwyddo neges ddifrifol.

Mae gweithio gydag eraill yn rhoi pleser i nifer, a gall ein cymunedau fod yn gyfrifol am newid positif. Ond mae gwrthwynebwyr ynni gwynt ac ynni adnewyddol yn gyffredin yn aml yn honni mai er budd cwmnïau mawrion mae prosiectau ynni gwyrdd, yn hytrach na phobl yn y filltir sgwar. Digon gwir ar adegau, ond dyw hyn ddim yn cael ei roi fel rheswm i wrthwynebu gorsaf lo neu niwclear chwaith.

Felly dyma'ch cyfle chi i weithredu. Cymerwch gip ar y canllaw syml i gychwyn prosiect ynni lleol, gan feddwl oes potensial yn eich ardal i gynhyrchu ynni – ac arian – er budd y gymuned. Yna, ewch i'n gwefan www.cyddcymru.co.uk am ragor o wybodaeth.

Felly hwyl fawr i'r hen (sori Gordon) a helo i'r newydd. Pob lwc i Gareth Clubb, Cyfarwyddwr newydd Cyfeillion y Ddaear Cymru. A dyma gynniog llwncdestun i 40 mlynedd arall o gael amser da a gwneud gwahaniaeth i Gymru, i bobl ac i'n planed hardd.

CYNNWYS

4 Bwystfil o losgydd

Achos arall o 'dyma sydd bob amser yn digwydd i Ferthyr'? Dim os gall y gymuned hon ei atal

4 Gweithredu rhyngwladol

Sut yr ydym yn helpu rhanbarth ym Mharaguay i fynd yn ddi-GM

4 Gorsaf Bŵer Penfro yn torri'r gyfraith?

Y Comisiwn Ewropeaidd yn ymchwilio ein cwyn

5 Dim niwclear newydd

Effeithlonrwydd ynni a phŵer adnewyddol – ffordd ymlaen i Gymru

5 Cartrefi cynnes

Mae codi cartrefi allan o dlodi tanwydd yn dda o ran swyddi ac iechyd

5 Yn gryno

Newyddion amgylcheddol o Gymru

6 Actio'r clown

Gall ymgyrchu fod yn hwyl?

8 Trosglwyddo yr awenau

Wrth i'n Cyfarwyddwr ymddeol, mae'n edrych yn ôl ar 40 mlynedd o weithredu gwyrdd

10 Yn y Cynulliad

Llywodraeth newydd, pwerau newydd

11 Gweithredu'n lleol


Newyddion o'n grwpiau lleol

12 Ynni Cymunedol

Canllaw i wneud ynni ac ennill arian



Ymunwch â ni ar-lein



www.cyddcymru.co.uk

Gwefan Cyfeillion y Ddaear yw eich canolfan wybodaeth ac adnoddau ar gyfer materion amgylcheddol yng Nghymru. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd â newyddion, digwyddiadau, manylion grwpiau lleol, datganiadau i'r wasg, adroddiadau a chyhoeddiadau.

www.facebook.com/foecymrucydd

Ymunwch â ni ar Facebook, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gwyrdd yn y cyfryngau, digwyddiadau amgylcheddol ac ymgyrchoedd o bob rhan o Gymru.



RHIFYN 4 2011

Gwella bywydau pobl drwy ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol

Cyhoeddir **Gweithredu Gwyrdd** gan **Cyfeillion y Ddaear Cymru**
33 Oriol Arcêd y Castell
Caerdydd CF10 1BY
Ffôn: 029 20229577
Ffacs: 02920228775
e-bost: cymru@foe.co.uk
gwefan: www.cyddcymru.co.uk

Golygydd a chynllunydd: Simon Williams
Golygydd iaith Gymraeg: Haf Elgar
Cyfranwyr: Gordon James, Bledwyn Lake, Richard Reast, Nathan Williams

Clawr: delwedd@Simon Williams
P12-13 delweddau@Kat Nicholson

Rhif Cyfeillion y Ddaear Cymru
Cyfyngedig 1012357

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
- yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG
- yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda bron i ddwy filiwn o gefnogwyr ar draws pum cyfandir a thros 70 o fudiadau cenedlaethol yn fyd eang
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm



Argraffwyd ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff ôl-ddefnyddiwr, gan ddefnyddio inciau llysiâu ac yn gwbl rydd o alcohol, gan argraffwr a chanddo achrediad amgylcheddol rhyngwladol ISO 14001

Cefnogwch ni

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o ffyrdd hawdd i chi gyfranu - o godi arian wrth chwilio'r rhyngwyd i gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian

Os nad ydych eisoes yn gefnogwr Cyfeillion y Ddaear beth am ymuno a ni heddiw? Bydd eich cyfraniad yn ein helpu i ddod o hyd i atebion i ddiogelu'r blaned a'i phobl yn awr ac i'r dyfodol. Ewch i www.foe.co.uk/cymru neu ffoniwch **0800 581 0510**. Byddem yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth

Mwynhewch a helpwch - trefnwch ddigwyddiad codi arian i Gyfeillion y Ddaear Cymru. Ffoniwch **029 2022 9577** am wybodaeth

Os ydych yn poeni am y byd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ei etifeddu, gadael rhodd yn eich ewyllys i Gyfeillion y Ddaear yw un o'r pethau gorau gallwch ei wneud. Cewch wybod rhagor am hyn yn www.foe.co.uk/legacies neu ffoniwch Candice ar **020 7566 1606**

Codwch arian ychwanegol ar ein cyfer drwy ddefnyddio peiriant chwilio Everyclick ar y rhyngwyd. Cofrestrwch yn www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust

Newidiwch eich trydan i ffynhonnell 100% adnewyddol 'Good Energy' ac fe dderbyniwn ni gyfraniad o £50. Ewch i www.good-energy.co.uk/foe neu ffonio **0845 456 1640**, gan son am Gyfeillion y Ddaear

Ymgyrch anferth yn erbyn bwystfil o losgydd



Stadiwm y Mileniwm

Llosgydd arfaethedig

Mae chwe mis yn amser hir yn hanes Merthyr. Mis Medi 2010 cynhaliodd Cyfeillion y Ddaear Merthyr Tudful standin i son wrth bobl y dref am y llosgydd anferth mae cwmni o America yn cynnig ei godi ar garreg eu drws. Nid oedd neb wedi clywed amdano, ac ymateb cyffredin oedd "Does dim allwn ni ei wneud amdano, mae hyn bob amser yn digwydd i Ferthyr."

Neidio ymlaen i fis Mawrth 2011 ac mae pobl yn ciwio wrth yr un standin i lenwi ffurflenni yn gwrthwynebu cynlluniau Covanta a llawer yn holi sut y gallant wneud mwy i helpu'r ymgyrch.

Mae gwleidyddion a oedd gynt yn ddi-hid nawr yn awyddus i siarad mewn

ralïau, a'r papur lleol wedi mynd o ddim ond argraffu barn Covanta i benawdau dalen flaen am yr ymgyrch.

Ar Nos Galan 2010 cyflwynodd Covanta eu cynnig yn swyddogol yn cadarnhau maint anferth y gwaith a fyddai angen 750,000 tonn o wastraff y flyddyn i'w fwydo. Trefnodd y cymunedau gyfarfodydd brys ar draws Cwm Rhymni a chyffiniau Merthyr, a daeth grwpiau ynghyd i ffurfio Grŵp Gweithredu Unedig y Cymoedd.

Aeth llond tri bws o bobl i gyflwyno ffurflenni gwrthwynebu i swyddfeydd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ym Mryste. Mae'n siwr nad oedd Covanta na'r IPC yn disgwyl dros 10,000 o

ymatebion a dderbynwyd yn y cyfnod 6 wythnos a ganiatwyd.

Rhaid i ni nawr wneud yn siŵr bod y broses penderfynnu yn rhoi ystyriaeth i effaith enfawr y bydd y llosgydd hwn yn ei gael ar bobl leol, a'r ffaith ei fod yn mynd yn gwbl groes i bolisiau gwastraff a newid hinsawdd Cymru.

Byddai rhoi caniatâd i'r bwystfil o losgydd hwn yn olau gwydd i gwmnïau ar draws y byd i lygru cymunedau yng Nghymru. Byddai'n cadarnhau ein hofnau mwyaf am broses yr IPC, ac yn cryfhau galwadau cynyddol i benderfyniadau ar ynni gael eu datganoli i Lywodraeth Cymru
Fideo: www.foe.co.uk/merthyr

Los Amigos de la Tierra Gales

Ffermwyr, cymunedau a grwpiau amgylcheddol yn ymgyrchu yn erbyn cynydu GM. Protestiadau yn erbyn corfforaeth amaeth. Lobio gwleidyddion i sefydlu cymunedau di-GM... Swnio'n gyfarwydd? Na, nid Cymru 10 mlynedd yn ôl, ond Paraguay heddiw.

Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyfeillion y Ddaear Paraguay, a adnabyddir fel Sobrevivencia, i ddatgelu effaith ddinistriol y mae'r galw o Ewrop am soia i fwydo anifeiliaid yn cael ar eu gwlad. Mae ffermio soia dwys, yn aml yn defnyddio cynydu wedi eu haddasu'n enetig (GM), yn dinistrio ecosystemau ac yn lleihau amrywiaeth amaethyddol. Mae cymunedau yn wynebu dadleoli gorfodol, a phobl a gaiff eu gwenwyno gan bladdwyr a chwynladdwyr yn dioddef problemau iechyd a hyd yn oed yn marw.

Mae Sobrevivencia yn gwybod mai rhan o'r ateb yw i Baraguay ddod yn ddi-GM, gan ganolbwyntio i gychwyn ar ardal o amgylch cymuned La Pastora.

Gyda'n hanes yng Nghymru o wrthwynebiad arloesol i gynydu GM,

a'n enw da am gynhyrchu bwyd o ansawdd, rydym wedi bod yn falch iawn i fod â rhan yn Sobrevivencia ac ymgyrch di-GM La Pastora.

Darllenwyd llythyr gennym, yn son am y profiad cadarnhaol yng Nghymru, yn y gwrandawriad cyhoeddus i ystyried a ddylid datgan La Pastora yn ddi-GM ai peidio. Mae'n debygol y bydd llawer mwy o gyd-ymgyrchu gyda Sobrevivencia, a gobeithiwn y bydd ffermwyr Paraguay sy'n cefnogi ffermio di-GM yn ymweld â Chymru yn fuan.

Gallwch helpu Sobrevivencia a Paraguay drwy fynnu cyfiawnder ar gyfer bachgen 11 mlwydd oed a wenwynwyd gan bladdwyr gwenwynig a ddefnyddiwyd gan ffermwyr soia
www.foe.co.uk/paraguay-justice

Gwylwch ein fideo am Baraguay - sganwch y cod gyda darllenwr QR ar smartphone (cost cyfraddau data arferol) neu gweler bit.ly/hK8nwY



Y CE yn ymchwilio gorsaf bŵer newydd Penfro

Mae toriad mewn cyfraith amgylcheddol gan yr orsaf bŵer nwy newydd ym Mhenfro yn cael ei ymchwilio gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Cyfeillion y Ddaear Cymru a wnaeth y gŵyn, gan y bydd y swm mawr o ddŵr y mae'n ei gymryd i mewn ac yn ei ollwng ar dymheredd cynhesach yn achosi difrod annerbyniol i fywyd morol yn Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol.

Ein barn ni yw na ddylai Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU na Asiantaeth yr Amgylchedd fod wedi rhoi caniatâd ar gyfer adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer, cyn cynnal asesiad llawn o'i effaith posibl ar yr amgylchedd morol.

Yn ôl adroddiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ni chaiff y dechnoleg a ddefnyddir yn yr orsaf bŵer newydd ei ystyried i fod yr un orau sydd ar gael gan yr UDA oherwydd y difrod amgylcheddol y mae'n ei achosi. Mae amgylchedd morol pwysig a gwerthfawr Sir Benfro yn haeddu cael ei warchod yn y modd gorau posibl.

Nid niwclear yw'r ateb

Mae trychineb Fukushima wedi gorfodi gwledydd ledled y byd i ailfeddwl ynglŷn â phŵer niwclear. Bydd yr Almaen yn cau pob adweithydd erbyn 2022. Mae China wedi gohirio cymeradwyo gweithfeydd arfaethedig, a Japan yn adolygu ei raglen niwclear.

Digwyddodd Fukushima bum mlynedd ar hugain wedi trychineb Chernobyl, gan ein hatgoffa bod dros 300 o ffermydd yng Nghymru dal wedi eu heffeithio gan y llwch ymbelydrol.

Mae risg a chost damweiniau, diffyg gwaredu diogel ar wastraff, bygythiad ymlediad niwclear ac ymosodiad terfysgol, a gorsafoedd ar y cyfan yn costio llawer mwy ac yn cymryd hwy i'w hadeiladau nag a gynlluniwyd, i gyd yn rhesymau cryf dros wrthod niwclear.

Gan fod pŵer niwclear yn darparu llai na 4 y cant o ynni Prydain, a chyfran debyg yn fyd-eang, rôl eithaf bychan sydd ganddo wrth daclo newid



hinsawdd. Gall pwyso am bŵer niwclear danseilio ymdrechion i dorri allyriadau carbon drwy ddargyfeirio adnoddau ariannol prin a sylw gwleidyddol oddi wrth ddewisiadau ynni gall wneud hyn yn gynt, rhatach a mwy diogel.

Erbyn hyn mae nifer o wledydd yn troi cefn ar bŵer niwclear oherwydd bod y risgiau a'r costau ariannol yn rhy fawr. Mae angen i'r Llywodraeth gydnabod y gall potensial enfawr Cymru ar gyfer ynni adnewyddol, ynghyd ac arbed ynni, gyflenwi'r dyfodol glan a mwy diogel rydym angen.

Taclo tlodi tanwydd – er budd pawb



Mae un o bob pedwar cartref yng Nghymru yn dioddef 'tlodi tanwydd', lle bo rhaid gwario dros 10 y cant o'r incwm i gadw tŷ'n gynnes. Gwaethygu mae'r sefyllfa – gyda tlodi tanwydd yn cynyddu'n raddol ers 2004.

Ond gyda thai yn cynhyrchu tua un rhan o bump o allyriadau nwy tŷ gwydr yng Nghymru, mae ailwampio tai i fod yn fwy ynni effeithlon er budd pawb - gan greu swyddi a gwella iechyd, yn ogystal â thorri allyriadau.

Ymunodd Cyfeillion y Ddaear Cymru â grwpiau plant, elusennau tai, sefydliadau defnyddwyr ac iechyd

i ffurfio Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru. Yn dilyn ymgyrch gref ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau breision ymlaen, gyda Strategaeth Tlodi Tanwydd a chynlluniau effeithlonwydd Arbed a Nyth.

Gan herio'r llywodraeth newydd i fod yn fwy uchelgeisiol byth, mae 'Cyfri'r dyddiad at gynhesrwydd fforddiadwy: agenda ar gyfer Lywodraeth newydd Cymru' y Gynghrair yn gynllun gweithredu chwe cham a fyddai'n dwyn cynhesrwydd fforddiadwy i filoedd o gartrefi yng Nghymru.

www.fuelpovertycharterwales.org.uk

YN GRYNO

20,000 swydd gwyrdd

Mae Dr Calvin Jones o Brifysgol Caerdydd wedi canfod y byddai rhaglen ailwampio ynni cartref cenedlaethol yn creu 20,000 o swyddi newydd yng Nghymru, yn torri miliynau o dunelli metrigr o allyriadau carbon, a chodi miloedd o gartrefi allan o dlodi tanwydd.

Bu Cyfeillion y Ddaear Cymru, fel aelod o gynghrair Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru, yn gweithio gyda Dr Jones ar yr adroddiad, 'Torri carbon – creu swyddi', gan gynnig camau ymarferol i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â newid hinsawdd a rhoi hwb i gyflogaeth.

www.stopclimatechaoscymru.org

Drilio am nwy siâl

Mae cynigion ar gyfer drilio am nwy siâl ym Mro Morgannwg yn peri pryder i amgylcheddwyr a thrigolion lleol. Mae drilio siâl, na chaniatawyd o'r blaen yn y DU, yn golygu tanio ffrwydrion o dan ddaear a defnyddio cemegau i gynyddu'r holltiadau.

Mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gallai ecsbloetio nwy siâl greu rhagor o allyriadau nwy tŷ gwydr na glo, yn bennaf o ollyngiadau methan yn ystod y broses echdynnu.

Yn ogystal ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, gall difrod amgylcheddol gael ei achosi drwy gemegau neu nwy yn gollwng i systemau dŵr tanddaearol gan lygru dŵr yfed.

Ble nesaf i ynni Cymru?

Yn ddiweddar mae'r dadlau ynglŷn ag ynni yng Nghymru wedi bod yn fwy ffyrnig nag erioed. Boed hynny'n ymwneud â dulliau adnewyddol, niwclear, glo, peilonau neu bibellau, mae'n ymddangos mai dim ond ychydig all weld y darlun mawr i'n harwain i ddyfodol carbon isel llwyddiannus. Felly, rydym yn gweithio gydag arbenigwyr ynni ar drywydd at ynni diogel, glân a gwyrdd. I gael gwybod pan gyhoeddir yr adroddiad, e-bostiwch cymru@foe.co.uk

Cynhadledd 2012

Cynhelir cynhadledd nesaf Cyfeillion y Ddaear Cymru, gyda siaradwyr gwadd, gweithdai a thrafodaethau, yn ystod gwanwyn 2012 - lleoliad i'w gadarnhau. I gael rhagor o wybodaeth ebostiwch bleddyn.lake@foe.co.uk



2008 Priodas Cyngor Merthyr â'r cwmni mwyngloddio mawr Miller Argent, wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi sêl ei bendith ar bwll glo brig 30 metr o gartrefi pobl.

Actio'r clown

Er ein bod yn mynd i'r afael â materion difrifol, gallwn gael digon o hwyl wrth wneud hynny

Onid yw ymgyrchu i fod yn ddiflas a difrifol? Mae'n siŵr nad oes llawer o hwyl i'w gael mewn dweud wrth bobl bod y blaned mewn trafferth mawr?

A dweud y gwir, gall gwneud i bobl feddwl fod yn llawn hwyl weithiau. Mae 40 mlynedd o brofiad ymgyrchu wedi dangos i ni nad bod yn hollol ddifrifol yw'r ffordd orau bob amser i berswadio ac addysgu. Yn ffodus, mae'n anodd bod yn rhy ddifrifol pan fyddwch wedi gwisgo fel buwch neu'n cario cynffon draig las 30 troedfedd.

Felly dyma olwg sydyn, ar ffurf lluniau, o'r hwyl a gafwyd dim ond yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae opera stryd fer, fflachdorf yn

cario ymbaréls, priodas ffug a chael hwyl mewn cychod i gyd wedi bod yn rhannau hollbwysig o rai ymgyrchoedd llwyddiannus. Rydym wrth gwrs yn dal i wneud y gwaith difrifol o siarad ag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol, ac mae gweld het wirion wedi dod â gwên i wyneb ambell un ohonynt hwythau weithiau.

Felly, os ydych yn hoffi trafod materion difrifol gydag ychydig o wiriondeb, ymunwch yn ein hymgyrchoedd. Nid oes yn rhaid i chi fwynhau gwisgo i fyny (ac ni fydd neb yn eich gorfodi i wneud hynny), ond mae digon o gyfleoedd os mai dyna sy'n mynd â'ch bryd ●



2009 Draig las enfawr yn herio Cynulliad Cymru a mynnu gweithredu effeithiol ar newid hinsawdd.



I'r dde o'r brig: **2011** Opera fer ar strydoedd Caerdydd yn codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd ac arbed ynni. **2010** Dau fuwch yn trafod sut y gall gwella eu diet gynorthwyo i fynd i'r afael â newid hinsawdd. **2008** Ymlid Gordon Brown mewn cwch bach i'w berswadio i gyflwyno deddf newid hinsawdd gref.



2009 Fflachdorf yn deffro'r byd am beryglon newid hinsawdd.



2010 Gall masgiau nwy eich amddiffyn yn erbyn llygredd aer o losgydd gwastraff, ond ni fyddant yn atal yr effaith ar newid hinsawdd.



© Phil Martin



Trosglwyddo yr awenau

Mae Gordon James wedi bod yn ymwneud â Chyfeillion y Ddaear am bron i 40 mlynedd. Wrth iddo ymddeol fel Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru ym mis Medi, mae'n edrych yn ôl ac ymlaen at heriau a chyflawniadau ymgyrchu amgylcheddol yng Nghymru

Chi sefydlodd Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro ym 1987. Ai dyna eich cysylltiad cyntaf â'r mudiad?

A dweud y gwir, fy ngweithred gyntaf oedd ym 1972, ychydig wedi sefydlu'r mudiad yn y DU 40 mlynedd yn ôl. Ysgrifennais llythyr at yr AS lleol ynglŷn â phŵer niwclear. Cefais ateb yn dweud diolch am eich llythyr huawdl. Wel, nid fi oedd wedi ysgrifennu'r llythyr, ond staff Cyfeillion y Ddaear. O'r cychwyn cyntaf roedd gan Gyfeillion y Ddaear safonau uchel iawn, ac rydym wedi ceisio cynnal rheiny.

A yw ymgyrchu wedi newid yn y 40 mlynedd diwethaf?

Mae'n mynd yn anoddach. Dros y blynyddoedd rydym wedi ennill llawer o ymgyrchoedd. Yn y gorffennol roeddem yn gofyn am aer iachach, afonydd glanach, ailgylchu - pethau yr oedd pobl ar y cyfan yn eu croesawu. Rydym nawr yn gofyn i bobl newid eu ffordd o fyw yn gyflym iawn, oherwydd bygythiad sylweddol newid hinsawdd. Wrth gwrs, nid oes neb yn hoffi clywed bod y ffordd yr ydym yn byw yn achosi'r broblem enfawr hon.

Ond, mae trafod materion amgylcheddol hefyd yn dod yn llawer mwy cyffredin. Mae syniadau yr ydym wedi eu cefnogi oedd yn ymddangos yn afrealistig, ond erbyn hyn mae llawer o bolisi yng Nghymru wedi ei seilio ar yr hyn yr ydym wedi ymgyrchu drosto - ailgylchu, ynni adnewyddol, taclo tlodi tanwydd, effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn gyflawniad mawr iawn i'r mudiad amgylcheddol. Ni ddylem anghofio'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud, a dylem fod yn falch o hynny.

Beth ydych chi fwyaf balch ohono fel ymgyrchydd?

Yr ymgyrch Cymru di-GM, yn ystod fy amser fel cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru rhwng 1995 a 2000. Ym 1999

Chwarter canrif o lwyddiant: Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru

1980au

Glaw Asid

Yn dilyn ei ffurfio ym 1984, chwaraeodd Cyfeillion y Ddaear Cymru rôl flaenllaw mewn cynyddu ymwybyddiaeth o broblem glaw asid. Bu hyn yn gymorth i ostwng allyriadau sy'n llygru yng Nghymru

1990au-2009

Ymestyn ffyrdd

Llwyddodd ymgyrchoedd cryf i drechu nifer o brosiectau adeiladu ffyrdd diangen, o ffyrdd osgoi drwy Eryri ar ddechrau'r 1990au i ddeuoli'r A40 yng ngorllewin Cymru a thraffordd Gwastadeddau Gwent yn 2009

1995

Gwarchod bywyd morol

Gorfododd cwyn i Ewrop, ar y cyd â Chyfeillion Bae Aberteifi i warchod y cynefin morol cyfoethog hwn, i lywodraeth y DU wneud asesiadau effaith amgylcheddol yn ofynnol i unrhyw ddrilio am olew a nwy yn y DU

1999

Erlyniad y Sea Empress

Yn dilyn gollyngiad olew y Sea Empress yn Aberdaugleddau ym 1996, casglwyd tystiolaeth a pharatowyd achos cyfreithiol. Fe'i drosglwyddwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd a llwyddodd erlyn Awdurdod y Porthladd ym 1999

roedd Cynulliad Cymru ar fin cael ei sefydlu a'n hymgyrch ni a ddangosodd y gallai'r Cynulliad wneud pethau'n wahanol i San Steffan. Mae'r esiampl a ddangoswyd gennym ni wedi ei dilyn gan ranbarthau ledled Ewrop, ac mae'n dal yn gryf heddiw - credaf mai hwn oedd un o'n prif llwyddiannau.

Mae llawer o bobl yn cyfeirio atoch fel yr ymgyrchydd sy'n gweithio galetaf yng Nghymru. Beth a gadwodd chi wedi eich ysgogi am bedwar degawd?

Y dicter a deimlaf wrth weld pethau'n cael eu gwneud yn wael, neu pobl yn bod yn anonest ac yn rhoi gwybodaeth ffug, pan welaf y cyfryngau yn rhoi gymaint o sylw i bobl sy'n gwadu newid hinsawdd pan fo'r dystiolaeth yn llethol, neu pobl yn gwrthwynebu ynni gwynt â dadleuon mor wan. Rhaid i mi godi a gwneud rhywbeth i geisio gwneud gwahaniaeth. Rwy'n teimlo na allwn adael iddynt gael eu ffordd.

Hefyd, cefais fy nghodi yng nghanol byd natur yn Sir Benfro ac mae hynny'n dal yn agos iawn at fy nghalon, a theimlaf yn gryf bod yn rhaid i ni ddiogelu'r cynefin sydd gennym ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fy ofn mwyaf yw pan fydd fy mhlant yn cyrraedd fy oedran i byddant yn byw mewn byd llawer mwy brawychus, oherwydd bydd newid hinsawdd yn llawer mwy real iddynt hwy nac ydyw i ni nawr.

Beth yw'r heriau amgylcheddol mwyaf i Gymru?

Cyflawni'r targedau y mae'r llywodraeth wedi eu gosod - toriad gan 3 y cant bob blwyddyn mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, holl drydan o ffynonellau andewyddol erbyn 2025, gwelliannau mawr mewn effeithlonrwydd ynni. Fe fydd manteision mawr, ond mae eu rhoi ar waith yn parhau i wynebu llawer o wrthwynebiad.

Mae'n cael ei weld fel brwydr, yr amgylchedd yn erbyn swyddi – y ddadl y bydd gwelliannau amgylcheddol yn niweidio diwydiant, yn ergyd i swyddi. Ond dadl ffug yw hon, dengys llawer o dystiolaeth y gall gweithredu polisïau amgylcheddol da gynorthwyo'r economi a chreu swyddi. Mae hyn yn arbennig o wir nawr - mae'r economi werdd yn fyd-eang yn ehangu'n gyflymach nag unrhyw sector arall.

Rydym yn genedl mor fach, a all unrhyw beth a wnawn ni wneud gwahaniaeth i her byd-eang newid hinsawdd?

Rydym eisoes yn gwneud gwahaniaeth. O'i dyddiau cynnar mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod am i Gymru fod yn arweinydd byd yn y chwyldro ynni gwyrdd, fel yr oeddem yn arweinydd byd yn y chwyldro diwydiannol.

Efallai ein bod yn fach, ond yn sicr mae gennym rôl bwysig i'w chwarae. Mae Cymru ymhell ar y blaen i Loegr - mewn polisïau amaethyddol, targedau ar gyfer lleihau allyriadau, ailgylchu a lleihau gwastraff. Felly, o fewn y DU

mae pobl yn edrych ar Gymru am arweiniad, ac o amgylch y byd mae pobl yn edrych ar y DU am arweiniad, fel yr unig wlad i osod targedau cyfreithiol rhwymol i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr, o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd a oedd yn bennaf o ganlyniad i ymgyrch Cyfeillion y Ddaear.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb moesol i weithredu. Mae Prydain wedi allyrru mwy o garbon deuocsid y pen nag unrhyw wlad arall oherwydd ein hecsploetio hir ar lo, ac wrth gwrs daeth Cymru'n enwog fel gwlad a oedd yn allforio glo.

Bydd bywyd yn well, neu'n waeth, ymhen 40 mlynedd?

Mae gennyf obaith y gall fod yn well, ond mae'r pum mlynedd nesaf yn dyngedfennol. Mae gennym gyfle o hyd i dorri allyriadau a datblygu economi carbon isel, ond rhaid i ni weithredu'n gyflym. Mae angen gwleidyddion dewr arnom, ac fel unigolion mae'n rhaid i ni wneud mwy hefyd - rhaid i ni fyw'r bywyd rydym am ei weld. Pan fydd fy mhlant fy oedran i, gall y byd fod yn lle gwell, ond mae'r amser yn prinhaus.

Beth yw'r cynlluniau ar gyfer ymddeoliad? A yw ymgyrchydd yn ymddeol mewn gwirionedd, cadw ei ben i lawr ac aros yn dawel?

Yn sicr rwy'n bwriadu parhau i ymgyrchu. A dweud y gwir, rwy'n gobeithio cael mwy o amser ar gyfer ymchwil, ysgrifennu ac ymgyrchu, gan y bydd yr holl waith gweinyddu a rheoli wedi mynd. Felly, na, dydw i ddim yn disgwyl bod yn hollol ddistaw ●

Gareth Clubb

Cyfarwyddwr Newydd Cyfeillion y Ddaear Cymru

Mae Gareth, oedd cyn hyn yn Gyfarwyddwr Cymdeithas Eryri, wedi gweithio ym maes polisi amgylcheddol a rheoli prosiect ar gyfer yr Adran Datblygu Rhyngwladol, Cadwch Gymru'n Daclus, y Comisiwn Ewropeaidd, y Cynulliad Cenedlaethol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Bu hefyd yn gweithio yn Ne America, Affrica ac Asia.

Mae Gareth yn edrych ymlaen yn fawr iawn i'r swydd. "Nid oes rôl bwysicach i'w chael yng Nghymru na honno a wneir gan Gyfeillion y Ddaear Cymru," meddai. "Yn wyneb bygythiadau sylweddol, maent wedi bod yn llusern dros y 25 mlynedd diwethaf, yn amlygu anghyfiawnder a lobio'n berswadiol - a llwyddiannus - am newid."



2000 Cymry di-GM

Cafodd yr ymgyrch i gadw Cymru yn rhydd o gnydau a addaswyd yn enetig ac i gefnogi ffermio amgylcheddol gyfeillgar, a lansiwyd ym 1999, gefnogaeth unfrydol gan Aelodau Cynulliad Cymru y flwyddyn ganlynol

2000au le i wynt

Cynorthwyodd chwalu'r mythau am bŵer gwynt, ac ymgyrchoedd i gefnogi prosiectau penodol, i sicrhau ffermydd gwynt yn Cefn Croes (2002), Scarweather Sands (2004), Gwynt y Môr (2009) a Wear Point (2010)

2010 Suddo Morglawdd Hafren

O'r diwedd llwyddodd yr ymgyrch hir yn erbyn y Morglawdd Hafren mawr o Gaerdydd i Weston. Anogwyd y Llywodraeth i gefnogi ffyrdd llai niweidiol o harneisio potensial ynni Aber Afon Hafren.

2010 Newid hinsawdd

Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun gweithredu sy'n cynnwys nifer o'n hargymhellion ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Nhw oedd y cyntaf yn y byd i osod targedau blynyddol, wedi lobio dyfal gennym ni

Yn y Cynulliad

Llywodraeth newydd, gweinidogion newydd, tymor newydd a phwerau newydd. O ie, ac enw newydd hefyd.



Gwelwyd nid yn unig llywodraeth newydd i Gymru ac ethol nifer o Aelodau Cynulliad (ACau) newydd yn 2011, ond hefyd pwerau deddfwriaethol yn dilyn refferendwm ym mis Mawrth. Ac mae hepgor 'Cynulliad' o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru enw newydd i gyd-fynd â'i phwerau newydd.

Gan ennill 30 allan o 60 sedd yn etholiadau mis Mai, penderfynodd Llafur fwrw 'mlaen ar ei phen ei hun â llywodraeth heb fwyafrif. Mae cyfrifoldebau Cabinet wedi eu newid yn sylweddol, gydag John Griffiths o Gasnewydd bellach yn Weinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy. Gyda'i gefndir cyfreithiol a hanes da o gefnogi tacio newid hinsawdd, dylai fod yn ddwylo cadarn i symud yr agenda ymlaen, cyflawni targedau a defnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd i osod sylfaen gyfreithiol gadarn.

Mae portffolio'r Gweinidog nawr yn cynnwys cynydu GM, iechyd planhigion a lles anifeiliaid, meysydd a oedd cyn hyn yn gyfrifoldeb y Gweinidog Amaethyddiaeth a Bwyd. Ond mae'r rôl honno wedi mynd, gyda gweddill y portffolio yn nwylo dirprwy weinidog, Alun Davies, a fydd yn adrodd i'r Gweinidog Busnes, Edwina Hart.

Ymhlith newidiadau eraill i'r Cabinet mae Gweinidog newydd ar gyfer Tai ac Adfywio, gyda Huw Lewis yn llenwi'r

swydd, a Phrif Weinidog Cymru Carwyn Jones yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion ynni sylweddol.

Beirniadwyd y llywodraeth flaenorol am bolisiâu datblygu economaidd, trafniadaeth a llywodraeth leol a fethodd â gwarchod yr amgylchedd. A fydd y Llywodraeth ar ei newydd wedd yn tynnu'r amgylchedd allan o'i bwl un adran, ac arwain at doriadau carbon ehangach ar draws pob maes?

Gwarchod hawliau amgylcheddol
Bydd y Mesur Datblygu Cynaliadwy arfaethedig yn gyfle mawr i wneud hyn. Ers tro rydym wedi ymgyrchu i hawl pobl i fyw mewn amgylchedd iach gael ei warchod yn gyfreithiol. Rhaid iddo fod yn Fesur beiddgar, gan wneud y gorau o'r pwerau newydd i warchod ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wedi'r cyfan, pa ddiben cael pwerau deddfwriaethol oni chânt eu defnyddio i symud Cymru ymhellach ac yn gynt tuag at gymdeithas werdd.

Mae deinameg llywodraeth un blaid, heb fwyafrif yn newid mawr. Mae gan y gwrthbleidiau fwy o bŵer, ac yn y bôn gallant bleidleisio yn erbyn busnes y llywodraeth os bydd unrhyw anghytuno o fewn Llafur. Ond rydym yn fwy tebygol o weld patrwm o gyfaddawdu a chytuno ar faterion cyn iddynt gael eu cyflwyno fel polisi.

Bwriad strwythur pwyllgorau newydd yw rhoi rhagor o gyfle i Aelodau


Cynulliad arbenigo mewn maes pwnc penodol. Mae pwyllgorau mwy - 10 aelod - nawr yn craffu ar deddfwriaeth yn ogystal â pholisi llywodraeth, ac

"A wnaiff y Llywodraeth hon ar ei newydd wedd dynnu'r amgylchedd allan o'i bwl?"

mae'n debygol y bydd ymholiadau focused yn edrych ar faterion penodol dros gyfnodau byrrach. Efallai y penodir ACau i arwain ar adroddiadau, fel sy'n gyffredin mewn cyrff deddfwriaethu Ewropeaidd eraill ac yn Senedd Ewrop.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn parhau yn ei le, gyda'i aelodaeth bron yn gyfan gwbl yn ACau newydd. Mae'r Cyn-lywydd, Dafydd Elis-Thomas, yn sicr o roi arweinyddiaeth gref a chreadigol fel ei Gadeirydd. Mae pwnc llosg ynni, yn arbennig seilwaith ynni mawr yr ydym wedi galw ers blynyddoedd iddo gael ei ddatganoli i'r Cynulliad, yn debygol o fod yn amlwg yn ei drafodaethau. Mae'r Pwyllgor Deisebau hollbwysig yn parhau, a bydd yn ystyried ein deiseb 'Na i Losgyddion' yn y misoedd nesaf.

Mae'n ymddangos y bydd y flwyddyn nesaf - a'r cyfan o'r tymor nesaf - yn y Cynulliad yn ymwneud â newid a chyflawni. Yn sicr byddwn angen digon o'r ddau i daclo newid hinsawdd ar frys yng Nghymru. **Haf Elgar, Ymgyrchydd**



Manifffesto ar gyfer Cymru wyrddach

Mae ein manifffesto yn cynnig dyfodol cadarnhaol ar gyfer Cymru wyrddach. Mae'n gosod agenda realistig i Lywodraeth Cymru daclo newid hinsawdd, adeiladu economi gryfach, creu swyddi, lleihau tlodi tanwydd, gwella iechyd a gwarchod bywyd gwyllt.

Mae'r Manifffesto ar gyfer Cymru wyrddach yn amlinellu ein hargymhellion polisi allweddol mewn fformat hwylus a chryno. Byddai dilyn yr argymhellion yn sicrhau bod newid hinsawdd yn cael ei osod yn gadarn wrth wraidd polisiâu Llywodraeth Cymru. Byddai'n golygu mesurau cryf i wella effeithlonrwydd ynni, newid o

danwydd ffosil i ynni adnewyddol, lleihau defnydd ar adnoddau, cynyddu ailgylchu a gwrthod llosgyddion.

Rydym yn galw am well cefnogaeth ar gyfer ffermio cynaliadwy, sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol Cymru wledig ac ar gyfer ein sicrwydd bwyd - ac o fudd i bobl a'r amgylchedd drwy greu swyddi a rheoli tir yn gyfrifol.

Credwn hefyd y dylai'r Llywodraeth warchod hawliau amgylcheddol pobl yn gyfreithiol, er mwyn gwneud yn siŵr bod hawl gennym oll i fyw mewn amgylchedd iach, ac i'w ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Lawlrwythwch: www.cyddcymru.co.uk

GRWPIAU LLEOL YNG NGHYMRU

Ymgyrchoedd lleol yn gymorth i sicrhau tâl am fapiau plastig yng Nghymru



Sue Harrison, Sue Heppenstall a Lynette Green o Gyfeillion y Ddaear Y Fenni a Chrughywel gyda Bag y Fenni


Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU lle bydd yn rhaid i siopwyr dalu 5c am bob bag plastig maent yn ei ddefnyddio. Caiff y tâl ei gyflwyno o fis Hydref 2011 drwy reoliadau a wnaed yn bosibl gan y Ddeddf Newid Hinsawdd, a honno'n ganlyniad i raddau helaeth i ymgyrch gan Gyfeillion y Ddaear.

Mae nifer o grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru wedi bod yn ymgyrchu i leihau'r defnydd ar fapiau plastig yn eu hardaloedd. Yn ogystal a mynd i'r afael â'n harferion taflu bob dydd, buont yn gweithio i ddangos i'n gwleidyddion bod awydd gwirioneddol i gael tâl gorfodol.

Cynhyrchoedd Cyfeillion y Ddaear Y Fenni a Chrughywel fag cotwm organig Masnach Deg, y maent nawr yn ei werthu i siopwyr lleol ac yn defnyddio'r elw i roi coed ffrwythau, llwyni a phlanhigion i ysgolion lleol.

Rhododd grŵp Caerffili 10,000 o fapiau cotwm Masnach Deg i blant ysgol a thirgolion lleol. Bu'r ysgolion yn cystadlu i ddylunio logo i'w roi ar y bag, a dewiswyd yr enillydd gan ffermwr Masnach Deg ar ymweliad o Weriniaeth Dominica.

Cododd Cyfeillion y Ddaear Llangollen ddigon o arian i roi bag y gellir ei aildefnyddio i bob cartref yn y dref, gyda logo a slogan arno a ddyluniwyd gyda chymorth plant ysgol lleol. Trefnodd y grŵp hefyd Wythnos Dim Bagiau Plastig, gyda 65 o siopau lleol yn cymryd rhan.



1. Aberhonddu
2. Abertawe
3. Abertyleri
4. Aberystwyth
5. Caerdydd
6. Caerffili
7. Caerfyrddin
8. Calon Cymru
9. Cas-gwent
10. Casnewydd
11. Castell-nedd Port Talbot
12. Llangollen
13. Llanidloes
14. Merthyr Tudful
15. Môn a Gwynedd
16. Pontypridd a'r cylch
17. Pen-y-bont ar Ogwr
18. Trefynwy
19. Torfaen
20. Sir Benfro
21. Sir y Fflint
22. Wrecsam
23. Y Barri
24. Y Fenni a Chrughywel

I wybod mwy ffoniwch **02920 229 577** neu ewch i **www.foe.co.uk/cymru**

Abertyleri

Cynhaliodd grŵp ysgol cyntaf Cyfeillion y Ddaear sesiwn Hawl i Holi Gwyrdd yn arwain at etholiadau Cynulliad Cymru ym mis Mai 2011.

Ers hynny mae disgyblion wedi bod yn dysgu am y difrod amgylcheddol ofnadwy a achoswyd yn Delta Niger gan fflamio nwy, wrth i nwy a ryddheir gan y broses cynhyrchu olew gael ei losgi. Maent yn awyddus i wybod mwy am ymgyrch Cyfeillion y Ddaear Nigeria i atal y fflamio.

Caerffili

Roedd Ffair Nadolig Werdd gyntaf Caerffili yn llwyddiant ysgubol, ac yn ychwanegiad i galendar prysur y grŵp o ddigwyddiadau cyfnwedd hadau, stondinau a ffilmiau.

Holwyd ymgeisyddion lleol yn nigwyddiad Hawl i Holi Gwyrdd y grŵp cyn etholiadau'r Cynulliad.

Mae cynlluniau yn mynd rhagddynt i ddarparu monitorau trydanol i bobl eu llogi o lyfrgelloedd lleol i fesur defnydd trydan eu cartref.

Môn a Gwynedd

Gan weithio gyda grwpiau eraill yng ngogledd Cymru, mae Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd yn gwrthwynebu cynlluniau ar gyfer llosgydd mawr yn yr ardal.

Mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) yn edrych yn sicr o fod yn llosgydd enfawr, a fyddai'n mynnu 150,000 tonn fetrig o sbwriel bob blwyddyn a'n costio amcangyfrif o £600-800 miliwn dros 25 mlynedd.

Casnewydd

Mae'r grŵp wedi bod yn yn gwrthwynebu cynlluniau i godi gorsaf bŵer biodanwydd newydd yn y ddinas, yn trefnu Ffair Werdd gyntaf Casnewydd ac yn sefydlu clwb ffilmiau gwyrdd i ddangos ffilmiau bob yn ail fis.

Maent hefyd wedi dechrau GREEN Newport (Adnoddau Gwyrdd ar gyfer Rhwydwaith Amgylcheddol a Moesegol) er mwyn helpu unigolion, grwpiau gwirfoddol a chyrrff eraill i weithio gyda'i gilydd.

Canllaw ynni cymunedol

Sefydlwch gynllun ynni adnewyddol a gallai eich cymuned ennill arian yn ogystal â chynorthwyo i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Rydym wedi paratoi canllaw syml ar ein gwefan gyda llawer o ddolenni defnyddiol ac adnoddau i'ch helpu i ddechrau arni.

1 Penderfynwch ar eich adnodd



2 Ffurfiwch eich grŵp



3 Dichonoldeb a chynllunio



4 Ariannu



5 Adeiladau / Gosod



Cewch ragor o wybodaeth yn
www.cyddcymru.co.uk